

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL
CYMRU**

IS-DEDDFWRIAETH

2007 Rhif 13

Tai, Cymru

**Penderfyniad ynghylch Cynlluniau
Effeithlonrwydd Ynni Cartref
(Categoriâu Gwaith ac
Uchafsymiau Grant) (Cymru)
(Diwygio) 2007**

*Wedi'i wneud
Yn dod i rym*

*7 Mawrth 2007
8 Mawrth 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Penderfyniad a ganlyn drwy ddefnyddio'r pŵer a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol drwy Adran 15 Deddf Nawdd Cymdeithasol 1990 fel y'i diwygiwyd gan Adran 142 Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 sydd bellach yn weithredol drwyddo mewn perthynas â Chymru ac yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2007:

**Enwi, dechrau, cymhwyso a
dehongli**

1. - (1) Enw'r Penderfyniad hwn yw Penderfyniad ynghylch Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Categoriâu Gwaith ac Uchafsymiau Grant) (Cymru) (Diwygio) 2007 a daw i rym ar 8 Mawrth 2007.

(2) Mae'r Penderfyniad yn gymwys i Gymru.

(3) Yn y Penderfyniad hwn -

mae "Penderfyniad 2006" yn golygu Penderfyniad ynghylch Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Categoriâu Gwaith ac Uchafsymiau Grant) (Rhif 3) (Cymru) 2006.

Diwygio Penderfyniad 2006

2. Caiff Penderfyniad 2006 ei ddiwygio fel a ganlyn.
3. Ym mharagraff 8 (c) ychwaneger “ or solid fuel central heating” ar ôl “oil central heating”
4. Ym mharagraff 9 (c) ychwaneger “ or solid fuel central heating” ar ôl “oil central heating”.
5. Ym mharagraff 13 ychwaneger “ or solid fuel central heating system” ar ôl “oil central heating system” .

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Dyddiad 07 Mawrth 2007

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol